2. This paper reflects the direction of travel the Group believes discussions regarding specific aspects of Senedd Reform proposals should be heading in. The Group are nevertheless mindful that the eventual agreed outcome in relation to all 4 matters will need to be capable of commanding the support of the two thirds of the Senedd's Members voting for the legislation.

The size of the Welsh Government in a larger Senedd

3. The Group understands that given the basis for Senedd Reform in part is due to the unrecognisable change in the nature and extent of the Senedd's powers compared to the institution created in 1999 and the necessity for the Senedd to take on further powers in the future. This in turn means the size of Government may need to also increase to reflect increased executive and portfolio responsibilities required of Government.
4. This should not, however, override the other important driver behind reform, scrutiny, and ensuring there are more backbench Members available to scrutinise Government work in Plenary and in Committee meetings.
5. Therefore, the number of Government Ministers should not increase by a greater rate than the increase of Senedd Members. This would mean the

threshold for the number of Government Ministers – in addition to the First Minister and Counsel General – would be 19.

6. The legislation could also provide, as an additional safeguard, for Standing Orders to contain provision that a move to depart from the current number of 12 Government Ministers towards the higher threshold of 19, should be approved by a vote in the Senedd, subject to a simple majority.

The number of Deputy Presiding Officers in a larger Senedd

7. The Group believes that one Deputy Presiding Officer, alongside the Llywydd would be sufficient.
8. Should it become clearer that additional capacity is needed, an additional Deputy Presiding Officer, or an Acting Chair for Plenary Meetings could be elected through procedures laid out within the Standing Orders provided that this would not effect the political balance of the Senedd in a situation whereby the political balance of power in the institution is split equally between the government and opposition as is currently the case.
9. Having additional Deputy Presiding Officers may help ensure that the expectations on them won't be too strenuous and impactful on family and care responsibilities, should Senedd Plenary meetings be conducted on additional days to Tuesdays and Wednesdays.
10. This matter does not necessarily have to be determined at this point on the face of the forthcoming Bill, and could instead be decided through changes to Standing Orders, at a later date.

The number of Senedd Commissioners in a larger Senedd

11. The number of Commissioners does not need to be increased, as the volume of work should remain manageable. However, in line with the point above in regard to political balance in relation to Deputy Presiding Officers, there should be at least one Commissioner from each party Group represented in the Senedd following the next election.

12. This matter could also be decided through changes to Standing Orders, at a later date.

The consequences of a Member changing their political party if elected through a closed proportional list system

13. The Group understands the importance of striking a balance between ensuring the public get the Senedd and Parties they voted for, as well as ensuring those parties are not too powerful and restrictive on individuals Members to be independently minded in a reformed Senedd.

14. If a Member ceases to be a member of the party they were originally elected to, they should continue as an independent Member without joining another Group, but they should not cease to be a Member of the Senedd. This would ensure that parties do not have complete control over Members, and would also allow Members to continue to fulfil their duties if, for example, a Member was suspended from their group on a temporary basis as a result of any disciplinary process.

15. Therefore, should there be change affecting a Member's party group affiliation, this would not impact on matters such as the allocation of resources, Senedd opposition time, and committee proportionality and chairing arrangements

provided to Senedd Groups on the basis of the election result at the start of the Senedd term.

16. Mechanisms and provisions should be in place to ensure that if a Member ceases to be a Member of the Senedd, through the creation of a casual vacancy, they should be replaced by the next candidate on the party list, unless that individual may have ceased to be a member of said party for any reason. This could have implications for gender balance of the Senedd, and consideration should be given to maintaining at least 50/50 representation.

SR11 Individual 4

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Y Pwyllgor Busnes | Business Committee

Galw am dystiolaeth ar argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd | Call for evidence on recommendations made by the Special Purpose Committee on Senedd Reform

Ymateb gan Unigol 4 | Evidence from Individual 4

The Senedd's Business Committee is inviting views to inform its consideration of four recommendations made by the Special Purpose Committee on Senedd Reform:

I have read the original Report with very great interest and have the following general observations:

- 1) May I compliment the Committee on the thorough nature and clarity of its Report? It serves as an exemplar and I can only express regret that the Westminster Parliament does not use its time and considerable resources to conduct such valuable work in such a painstaking manner. The people of Wales are well served by this attempt to broaden and deepen democratic practice.
- 2) I cannot dissent from any of the Committee's recommendations- whether substantive or procedural. I do hope that the Senedd will proceed with some version of 'job-sharing'.
- 3) I commend both the discussion of alternative forms of closed list proportional representation and the decision to choose the D'Hondt method. I think that 'pure' D'Hondt rather than the system adopted in Northern Ireland - for wholly understandable, pragmatically justifiable, and morally and politically good reasons-, will well serve the people of Wales. It is, again, to be regretted that such a (if I may) mature discussion has not taken place in Westminster.
- 4) I cannot comment on the 'four recommendations' - these are properly for the Senedd and the people of Wales.



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Llywydd, Senedd Cymru

Right Honourable Elin Jones MS

Llywydd, Welsh Parliament

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

Llywydd@senedd.wales

0300 200 6565

At: Y Pwyllgor Busnes

3 Tachwedd 2022

Annwyl Pwyllgor Busnes,

Nifer o Dirprwy Lywyddion o dan Ddiwygiad y Senedd

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd mewn perthynas â nifer y Dirprwy Lywyddion ar gyfer y Seithfed Senedd.

Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gynnig cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Senedd wrth ystyried y nifer priodol o Ddirprwy Lywyddion yn neddfwriaeth Diwygio'r Senedd.

Mae'r Senedd wedi bod yn destun newid sylweddol ers ei chreu ym 1999. Mae mwy o bwerau deddfu, pwerau dros drethiant a newid sylweddol yn y model pwerau yn golygu bod busnes yn fwy cymhleth i'w lywio. Wrth i statws y Senedd aeddfedu, mae'r galwadau ar amser y Llywydd fel Cadeirydd y Comisiwn a'r Pwyllgor Busnes – yn ogystal â chynrychioli'r Senedd mewn ymweliadau a digwyddiadau mewnol ac allanol – wedi cynyddu, ochr yn ochr â dyletswyddau cadeirio'r Cyfarfod Llawn.

Hyd yn hyn, galwyd ar Gomisiynwyr i gadeirio cyfarfodydd llawn ar adegau pan nad yw'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd ar gael, gan ddangos yr angen am hyblygrwydd yn y darpariaethau ar gyfer cefnogi busnes y Senedd. At hynny, mae'r sefyllfa hon wedi'i hategu gan gytundeb diweddar y Senedd i ethol Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn sydd â phwerau llawn dros gynnal trefn a phleidleisio, ond nad yw'n gallu cyflawni unrhyw un o swyddogaethau eraill y Llywydd.

Mae'n bosibl y bydd Senedd fwy o faint yn cyfarfod yn amlach ac/neu am sesiynau hirach o'r Cyfarfod Llawn, ac felly rhagwelir y bydd hyd yn oed mwy o alw ar amser y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

Wrth ystyried yr angen am ddeiliaid swyddi ychwanegol roedd y Panel Arbenigol yn pryderu bod y "*manteision posibl ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael eu gwireddu*" ac rydym yn ymwybodol o'r angen i beidio â chynyddu nifer y deiliaid swyddi y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol.


Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig "*y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny*". At hynny, fe wnaethon nhw argymhell fel a ganlyn: "*Gellid dadlau y dylai'r Senedd fod â hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion os yw am wneud hynny (ac unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â'r blaid y gallai ddod ohoni)*".

Ar y lleiaf, felly, dyma annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn cael gwared ar y cyfyngiad sy'n caniatáu dim ond un Dirprwy Lywydd. Er mwyn cynnal yr egwyddor o hyblygrwydd, ein hawgrym yw bod y ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn caniatáu 'o leiaf un' Dirprwy Lywydd. Byddai angen adolygu Adranau 25(7-9) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau nad yw'r Llywydd a'r Dirprwyon oll yn perthyn i'r un grŵp gwleidyddol, na chwaith oll yn perthyn i'r Llywodraeth neu peidio.

Yn ogystal â nifer y Dirprwy Lywyddion, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried a ddylid pennu teitl arall i Presiding Officer yn Neddf Llywodraeth Cymru. Ein dewis ni fyddai '*Speaker*' a '*Deputy Speaker*'. Yn yr un modd, hoffem pe baech yn ystyried y posibilrwydd o'r teitlau Cymraeg '*Llywydd*' a '*Dirprwy Lywydd*' ymddangos ar wyneb y Bil, gyda'r holl gyfeiriadau yn Neddf Llywodraeth Cymru yn dod yn gyfeiriadau at '*the Llywydd*' yn hytrach na '*Presiding Officer*' neu '*Speaker*' drwy welliant i a. 25(1)(a).

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol ichi ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu ymhellach â'r Pwyllgor a'r Llywodraeth wrth i raglen Diwygio'r Senedd fynd rhagddi.

Yn gywir,



Y Gwir Anrh. Elin Jones AS

Llywydd



David Rees AS

Dirprwy Lywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Y Pwyllgor Busnes
Dros ebost

8 Tachwedd 2022

Annwyl Bwyllgor Busnes,

Diolch am y cyfle i rannu barn y Comisiwn ar nifer y Comisiynwyr sydd eu hangen o ganlyniad i ddiwygio'r Senedd.

Mae'r Comisiwn yn nodi'r argymhelliad a ganlyn (Argymhelliad 6) a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd:

"Rydym yn argymhell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy na phedwar Aelod o Gomisiwn y Senedd pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau."

Gwnaethom ystyried yr argymhelliad hwn yn ystod ein cyfarfod ar 7 Tachwedd. Gwnaethom nodi na ragwelir y bydd diwygio'r Senedd yn newid swyddogaethau statudol Comisiwn y Senedd (Adran 27(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru). O'r herwydd, nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod angen capasiti ychwanegol er mwyn i'r Comisiwn allu cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ar hyn o bryd.

Wrth i waith y Senedd barhau i esblygu mewn blynyddoedd i ddod, efallai y bydd themâu sy'n dod i'r amlwg a fydd yn gofyn am sylw'r Comisiwn ac efallai y bydd angen ailedrych ar y mater o gapasiti. Pe bai mwy o angen yn dod i'r amlwg, ni fyddem yn rhagweld y byddai hynny y tu hwnt i un aelod ychwanegol, i wneud Comisiwn o chwech, gan gynnwys y Llywydd. Gan nodi bod nifer y Comisiynwyr wedi'u pennu mewn statud (Adran 27(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru), efallai y byddai'n fuddiol rhoi'r hyblygrwydd i'r Senedd drwy ei Rheolau Sefydlog i benderfynu ar y nifer priodol o Gomisiynwyr. Efallai y bydd y Pwyllgor Busnes am ystyried hyn fel rhan o'i ystyriaeth i ddeiliaid swyddi eraill y mae eu niferoedd wedi'u pennu ar hyn o bryd drwy statud.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ Sulafa.Thomas@senedd.cymru
☎ 0300 200 6227

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ Sulafa.Thomas@senedd.wales
☎ 0300 200 6227

Mae adran 27(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y mae eisoes yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd drwy nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn gynnwys un aelod o bob grŵp gwleidyddol (yn ogystal â'r Llywydd) cyn belled ag sy'n "rhesymol ymarferol". Roedd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r Senedd i ethol dau Gomisiynydd o'r un grŵp gwleidyddol (h.y. y grŵp mwyaf) ar ddechrau'r Chweched Senedd er mwyn bodloni'r meini prawf sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael pedwar Comisiynydd (yn ogystal â'r Llywydd) oherwydd dim ond tri grŵp gwleidyddol sy'n bodoli. Fel y cyfryw, nid ydym yn rhagweld y bydd angen newid y ddarpariaeth hon.

Cofion gorau,



Gwir Anrh. Elin Jones AS

Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English





Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

9 Tachwedd 2022

Annwyl Elin

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref, sy'n gwahodd safbwyntiau er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor Busnes o ystyried pedwar argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig (PDA) ar Ddiwygio'r Senedd. Mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar yr hyn a ganlyn yn benodol:

- maint Llywodraeth Cymru mewn Senedd fwy (argymhelliad 4)
- y canlyniadau pe bai Aelod yn newid plaid wleidyddol os yw wedi cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig (argymhelliad 10)

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio rhoi barn benodol ar nifer y Dirprwy Lywyddion mewn Senedd fwy (argymhelliad 5) nac ar nifer Comisiynwyr y Senedd mewn Senedd fwy (argymhelliad 6) ond mae'n cydnabod y datganiadau gan y PDA mai diben cynyddu capasiti'r Senedd ddylai fod galluogi gwaith craffu ar bolisiau a deddfwriaeth, a dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

Mae ystyriaeth Llywodraeth Cymru o argymhellion 4 a 10 i'w chael yn yr atodiadau i'r llythyr hwn.

Cofion

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad 1: Maint Llywodraeth Cymru mewn Senedd fwy

Wrth ystyried y mater hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cadw mewn cof fod adran 51(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) yn cyfyngu ar nifer y personau sy'n dal swydd fel un o Weinidogion Cymru i 12. Mae hyn yn cynnwys Gweinidogion (a benodir o dan adran 48) a Dirprwy Weinidogion (a benodir o dan adran 50), ond nid yw'n cynnwys swyddi'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, gan olygu felly mai'r terfyn o ran maint Llywodraeth Cymru yw 14, i bob pwrpas. Roedd y terfyn presennol ei hun yn gynydd, a wnaed yn 2006, o'r terfyn blaenorol o 9.¹ Ni chafwyd unrhyw gynydd yn y blynyddoedd dilynol, er i'r Senedd ennill pwerau deddfu sylfaenol a chymhwysedd ehangach.

Wrth argymhell cynnydd yn nifer Aelodau'r Senedd, dywedodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei fod yn rhagweld y byddai ei argymhellion ynghylch cael Senedd fwy yn arwain at ystyried a ddylai fod newid cysylltiedig i'r cyfyngiad hwn. Serch hynny, nododd fod "[r]haid i brif ddiben cynnydd mewn maint ymwneud â galluogi lefel well o gynrychiolaeth seneddol, deddfwriaeth a chraffu ar waith llywodraeth".² Nododd hefyd y byddai unrhyw gynydd ym maint Llywodraeth Cymru "yn golygu gostyngiad cyfatebol yng nghapasiti'r Senedd ar gyfer gwaith craffu".³

Mae pwerau a chyfrifoldebau gweithredol Gweinidogion Cymru wedi cynyddu'n sylweddol ers pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Er enghraifft, ers pasio Deddf Cymru 2017, mae Gweinidogion Cymru wedi gallu arfer swyddogaethau gweinidogol gweithredol yn sgil trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae pwerau a chyfrifoldebau gweithredol Gweinidogion Cymru hefyd wedi cynyddu o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE (yn enwedig ym meysydd yr amgylchedd a materion gwledig a materion economaidd).

Mae gan Weinidogion Cymru rôl sydd wedi cynyddu'n sylweddol hefyd ym maes cysylltiadau rhynglywodraethol, sy'n cynnwys cyfarfodydd rhyngweinidogol i gydlynu polisïau, rhaglenni, a gweithrediad y fframweithiau rhynglywodraethol.

O ganlyniad, mae portffolios rhai Gweinidogion yn eang iawn erbyn hyn, gan olygu bod rhaid i rai Gweinidogion fod yn atebol am benderfyniadau ar amrywiaeth arbennig o eang o feysydd polisi. Wrth edrych ymlaen, er y bydd angen trafodaethau pellach ynghylch goblygiadau gweithredol Senedd fwy, mae'n ddisgwyliad naturiol y bydd cynnydd, yn ôl pob tebyg, yn y galwadau cronus ar Weinidogion Cymru oherwydd gwaith craffu.

¹ Yn setliad datganoli Cymru ar ei wedd gyntaf, nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar faint Cabinet y Cynulliad, fel y'i nodwyd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn hytrach, roedd adran 53(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Deddf 1998) yn darparu bod rhaid i Reolau Sefydlog y Cynulliad bennu'r uchafswm o "Ysgrifenyddion y Cynulliad" (h.y. Gweinidogion) y gellid eu penodi. Gwnaed y Rheolau Sefydlog cychwynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 50 o Ddeddf 1998 ac roeddent yn darparu: "Ni fydd mwy na naw aelod yng Nghabinet y Cynulliad, gan gynnwys y Prif Ysgrifennydd". Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau wedyn i'r terfyn hwn yn y Rheolau Sefydlog, nes iddo gael ei ddisodli gan y terfyn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

² Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd (PDA), Mai 2022, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Para 42.

³ Ibid, Para 43.

Mae pryderon wedi'u mynegi yn y gorffennol am y posibilrwydd y gallai'r terfyn presennol amharu ar hyblygrwydd Llywodraeth Cymru i ymateb i ddiwyddiadau. Ym mis Chwefror 2020, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y pryd y sylwadau a ganlyn mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd:

“Roedd modd i Lywodraeth yr Alban benodi Gweinidog Cabinet ychwanegol i fod yn gyfrifol am reoli'r materion polisi a rhynglywodraethol newydd helaeth iawn a oedd yn codi [o Brexit]. Ar y llaw arall, gan fod ganddi set lawn o Weinidogion eisoes yn ei lle yn unol â'r terfyn statudol, yr unig ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi gallu rheoli'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn yw drwy ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol eu hysgwyddo, ar ben ei gyfrifoldebau eraill fel Swyddog y Gyfraith y Llywodraeth.”⁴

Nododd y Pwyllgor Diben Arbennig hefyd mai rhan o'i resymeg dros gynyddu maint y Senedd oedd “[d]iogelu capasiti'r Senedd ar gyfer y dyfodol er mwyn gallu craffu ar bwerau a chyfrifoldebau cynyddol Llywodraeth Cymru”.⁵ Yn yr un modd, gellid ystyried y byddai cynyddu'r cyfyngiad presennol ar nifer Gweinidogion Cymru yn ddull o ddiogelu ar gyfer y dyfodol yn achos datganoli pwerau pellach.⁶ Er enghraifft, nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, wrth argymhell y dylid datganoli swyddogaethau cyfiawnder yn sylweddol, fod rhaid, yn sgil datganoli o'r fath, “sefydlu Adran Gyfiawnder newydd yn Llywodraeth Cymru a arweinir gan un o Weinidogion y Cabinet”.⁷

Wrth ystyried y mater hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi nad oes terfyn cyfreithiol ar faint Llywodraeth yr Alban. Er y byddai dileu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru yn gyfan gwbl yn fanteisiol ar gyfer sicrhau hyblygrwydd, gallai hefyd beryglu argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig mai prif ddiben cynyddu maint y Senedd ddylai fod galluogi lefel well o gynrychiolaeth seneddol, deddfwriaeth a chraffu ar waith llywodraeth.

Barn Llywodraeth Cymru felly yw y dylid cynyddu nifer Gweinidogion Cymru o 12, ond y dylai fod terfyn cyfreithiol ar y nifer hwn o hyd. Ym marn Llywodraeth Cymru, dylid cynyddu'r terfyn hwn i nifer penodol, sydd wedi'i ddatgan mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Er mwyn cyfrannu at drafodaethau'r Pwyllgor Busnes ynghylch y mater hwn, a chan ystyried y pwyntiau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol i'r nifer penodol hwn fod yn yr ystod o 16 i 19 (yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol).

⁴ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: ymchwiliad i gapasiti'r Cynulliad, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 10 Chwefror 2020, <https://busnes.senedd.cymru/documents/s98990/CAER5-5-20%20Papur%20iw%20nodi%205.pdf>

⁵ Ibid, Para 26.

⁶ Mae hyn er gwaethaf y ffaith y gellid ystyried bod datganoli cyfrifoldebau Gweinidogol a phwerau ymhellach ers 2006 eisoes yn rheswm dros gynyddu'r cyfyngiad.

⁷ Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, Hydref 2019, Para 68.

Atodiad 2: Y canlyniadau pe bai Aelod yn newid plaid wleidyddol os yw wedi cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod newid system etholiadol y Senedd i un sy'n seiliedig ar restrau cyfrannol caeedig yn creu cwestiwn ynghylch a ddylai fod canlyniadau i aelod sy'n newid ei blaid wleidyddol, o gofio bod pleidleiswyr wedi pleidleisio dros blaid yn hytrach nag unigolyn. Gellid dadlau, drwy beidio â chyflwyno rheolaethau, y byddai argraff fod democratiaeth yn cael ei thanseilio pan fydd cynrychiolydd etholedig yn gadael plaid o dan system rhestr gyfrannol gaeedig.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cofio hefyd am y cyswllt rhwng aelodau etholedig a'r etholaeth a bleidleisiodd drostynt, a bod angen ystyried y mater hwn gan gydnabod y gallai sancsiynau yn erbyn symud rhwng pleidiau gynyddu grym mewnol grwpiau gwleidyddol a'u rheolaeth dros aelodau etholedig. Mae amgylchiadau lle y gall aelod ystyried mai peidio â chydymffurfio â safbwynt grŵp ei blaid yw'r dull mwyaf priodol o gynrychioli buddiannau ei etholwyr, fod hynny'n adlewyrchu'r mandad y cafodd ei ethol arno, neu ei fod yn bwynt tyngedfennol o egwyddor bersonol.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fesurau deddfwriaethol yn y Senedd, nac yn wir mewn unrhyw ddeddfwrfa yn y DU, a fyddai'n arwain at gynrychiolydd etholedig yn gorfod ildio'i sedd os yw'n gadael ei blaid yn wirfoddol neu'n anwirfoddol. Gall cynrychiolwyr etholedig newid grŵp gwleidyddol o fewn tymor seneddol ym mhob un o seneddau'r DU, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau mewn Rheolau Sefydlog.

Mae papur Kenneth Janda, *Laws Against Party Switching, Defecting, or Floor-crossing in National Parliaments*, yn amcangyfrif, ar lefel ryngwladol, fod 14% (5 o 36) o ddemocratiaethau sefydledig yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau seneddol ildio'u seddi os ydynt yn newid plaid wleidyddol. Mae gan y mwyafrif o'r deddfwrfeydd hyn fesurau a fyddai'n arwain at gynrychiolydd etholedig yn cael ei ddiarddel o'r ddeddfwrfa am newid plaid wleidyddol, ac mewn saith mae rheolau sy'n pennu bod rhaid i gynrychiolydd ildio'i sedd os nad yw'n pleidleisio yn unol â'i blaid ar faterion strategol.

Nid yw hynny'n golygu mai cael ei ddiarddel o ddeddfwrfa yw'r unig ganlyniad posibl i aelod sy'n gadael y blaid neu'r grŵp gwleidyddol y cafodd ei ethol ar ei gyfer. Mae wedi'i ymgorffori yng nghyfansoddiad Portiwgal nad yw aelod o'r senedd yn gallu newid plaid wleidyddol, ond gall ymddiswyddo i eistedd fel aelod annibynnol. Fel aelod annibynnol, bydd yn cadw ei sedd a'r hawliau sydd gan aelodau eraill, gan gynnwys y gallu i gynnig Biliau ac awgrymu gwelliannau. Yn yr un modd, os caiff aelod o senedd Portiwgal ei ddiarddel o'r blaid, bydd yn cadw ei sedd ond yn colli rhai hawliau, a hynny gan ei fod yn cael ei ystyried yn aelod nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid benodol yn hytrach nag yn aelod annibynnol. Mae'r dull a ddilynir yn Sbaen yn rhannu rhai nodweddion tebyg (er bod nifer o wahaniaethau hefyd) ac yn cael ei weithredu drwy reolau sefydlog, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth yn uniongyrchol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn sylweddoli, pe bai aelod yn colli ei sedd yn y Senedd yn sgil newid ei grŵp gwleidyddol, y byddai hyn yn creu goblygiadau ar gyfer nifer y seddi y gellid disgwyl iddynt ddigwydd dod yn wag rhwng unrhyw ddau etholiad cyffredinol. Ar hyn o bryd, pe bai un o seddi rhanbarthol y Senedd yn digwydd dod yn wag, byddai'n cael ei llenwi gan ymgeisydd nesaf y blaid a enillodd y sedd honno (yn hytrach na thrwy is-etholiad). Pe na bai neb ar ôl ar restr plaid, byddai'r sedd yn aros yn wag. Ar sail y rhagdybiaeth y bydd yr un dull yn cael ei fabwysiadu, mae'n fwy tebygol y bydd seddi'n parhau'n wag oherwydd bod neb ar ôl ar restr plaid.

Pe bai mesurau'n cael eu hystyried sy'n cynnig bod aelod yn colli ei sedd yn awtomatig yn sgil newid grŵp gwleidyddol, byddai angen ystyried y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol hefyd, a'r rhyddid i fynegi barn wleidyddol sydd wedi'i gynnwys ynddo.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod rhai canlyniadau i aelodau sy'n gadael pleidiau gwleidyddol i'w cael eisoes yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Er enghraifft, mae Rheol Sefydlog 1.3(ii) yn gosod cyfyngiadau ar ffurfio grŵp gwleidyddol newydd. Yn yr un modd, mae Rheol Sefydlog 17.12 yn nodi bod aelod yn peidio â bod yn aelod o bwllgor os yw'n ymuno â grŵp gwleidyddol neu'n ymadael ag ef. Nid yw hyn yn golygu bod hyblygrwydd diderfyn gan y Rheolau Sefydlog yn hyn o beth, gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfyngu ar yr hyn y gall y Rheolau Sefydlog ei wneud.

O ystyried y materion amrywiol hyn ac er mwyn cyfrannu at ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'r mater, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, er y dylai aelodau'r Senedd allu ymddiswyddo o'u grŵp gwleidyddol ac eistedd fel aelodau annibynnol heb golli eu sedd, fod dadl dros gyfyngu ar eu gallu i ymuno â grŵp gwleidyddol gwahanol neu i greu grŵp o'r fath. Mae'n credu ymhellach y dylid ystyried ai'r Rheolau Sefydlog ddylai fod y cyfrwng ar gyfer cyflawni unrhyw gyfyngiadau o'r fath.